

Canllawiau i Ymgeiswyr: Cyflog Byw Gwirioneddol



Mae Cronfa Gymunedol Cwmni Buddiant Cymunedol Pen y Cymoedd yn **Gyflogwr Cyflog Byw achrededig** – bydd ein cyflogeion a'n contractwyr bob amser yn cael eu talu ar y gyfradd Cyflog Byw Gwirioneddol fesul awr.

Rydym hefyd yn **Gyllidwr Cyfeillgar i'r Cyflog Byw** gwirioneddol. Rydym yn cefnogi ac yn annog ymgeiswyr yn frwd i dalu eu cyflogeion ar lefelau'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Dylai ceisiadau am arian i gyflogi staff adlewyrchu costau'r Cyflog Byw Gwirioneddol lle bynnag y bo'n bosibl. Rydym yn cydnabod y gallai fod rhesymau cryf pam efallai na fydd hyn weithiau'n bosibl i rai ymgeiswyr, ond byddwn bob amser yn gofyn i chi ddweud wrthym sut a pham mae'r lefelau cyflog wedi'u cyfrifo.

Efallai hefyd yr hoffech ystyried cael eich achredu gan y Sefydliad Cyflog Byw fel Cyflogwr Cyflog Byw – gallwch gael gwybod rhagor yma - www.livingwage.org.uk

Beth yw'r Cyflog Byw?

2023/2024	Yr Isafswm Cyflog Isafswm y Llywodraeth ar gyfer Dan 23s	Cyflog Byw ïonaidd Nat Isafswm y Llywodraeth ar gyfer 23 oed a hŷn	Cyflog Byw Real Yn seiliedig ar beth sydd ei angen ar bobl i fyw
Beth yw e?	<ul style="list-style-type: none">➤ 21 - 22: £10.18➤ 18 – 20: £7.49➤ Dan 18: £5.28➤ Prentisio: £5.28	£10.42	£12
Ai'r gyfraith?	Ydy - crëwyd gan y Ddeddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998	Ydy – cyflwynwyd ym mis Ebrill 2016	Nac ydyw - gwirfoddol
Grŵpge wedi'i orchuddio?	Hyd at 22	23 oed a hŷn	18 oed a hŷn
Sut mae'n cael ei osod?	Cael ei thrafod – mae'r Comisiwn Cyflog Isel yn cynghori, mewnbnw gan fusnesau ac Undebau Llafur	% o enillion pwynt canol, y nod yw cyrraedd 66% o enillion pwynt canol erbyn 2024.	Cyfrifir gan y Sefydliad Cyflog Byw . Cyfrifir cyfraddau yn annibynnol yn ôl y costau byw, yn seiliedig ar fasedg o nwyddau a gwasanaethau cartref.

Manteision y Cyflog Byw Gwirioneddol

Pan mae eu cyflogau yn isel, mae'n rhaid i bobl wario llai. Mae hyn yn anochel yn effeithio ar economïau lleol. Mae talu cyflog sydd wedi'i gyfrifo mewn perthynas â chost gwirioneddol nwyddau sylfaenol yn golygu bod pobl yn fwy tebygol o allu eu prynu. Os gall pobl mewn cyflogaeth fforddio i fyw bywyd llawn, mae pawb yn elwa: mae pobl yn fwy tebygol o wario'n lleol – gan roi hwb i economïau lleol.

Gan weithio gyda'r Sefydliad Cyflog Byw, arolygodd Ysgol Busnes Caerdydd dros 800 o fusnesau Cyflog Byw gwirioneddol achrededig, yn cynnwys busnesau bach a chanolig (BBaChau). Dywedodd 86% fod yr achrediad Cyflog Byw wedi gwella enw da cyffredinol eu sefydliad fel cyflogwr. Nododd dros hanner y cyflogwyr fod y Cyflog Byw wedi gwella recriwtio a chadw staff, a bod cymhelliant y staff wedi cynyddu.

[Sefydliad Cyflog Byw](http://www.livingwage.org.uk) gwefan: www.livingwage.org.uk

DS: nid yw cydymffurfio â'r nodyn canllaw hwn yn gwarantu y bydd y cais yn llwyddiannus – arwydd ydyw yn unig o rai elfennau o'n proses asesu a'n meini prawf.